

PPLHK2W

Glanhau ffenestri o'r tu mewn



Trosolwg

Mae'r uned yn ymwneud â glanhau arwynebau mewnol ffenestri, gan ddefnyddio cyfarpar a deunyddiau glanhau priodol. Nid yw'r uned yn gofyn i chi weithio'n uwch na chyrhaeddiad eich llaw.

Cynnwys yr uned:

- 1 paratoi i lanhau ffenestri o'r tu mewn
- 2 glanhau arwynebau mewnol ffenestri

PPLHK2W

Glanhau ffenestri o'r tu mewn

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Paratoi i lanhau ffenestri o'r tu mewn

- P1 baratoi eich ardal waith a'r cyfarpar
- P2 archwilio'r arwyneb i'w lanhau
- P3 sylwi ar unrhyw arwynebau sy'n rhydd neu wedi'u difrodi
- P4 rhoi gwybod i'r person perthnasol am arwynebau sy'n rhydd neu wedi'u difrodi a gofyn am gyngor
- P5 dewis deunyddiau a dulliau glanhau sy'n briodol i'ch rhestr waith, y math o faw a'r arwyneb rydych chi'n mynd i'w lanhau

Glanhau arwynebau mewnol ffenestri

Rhaid i chi allu:

- P6 roi'r deunydd glanhau ar yr arwyneb yn ofalus yn ôl cyfarwyddiadau ac argymhellion y gwneuthurwr
- P7 rhyddhau baw sydd wedi glynu wrth yr arwyneb heb achosi difrod
- P8 glanhau'r ffenest yn drwyadl a glanhau baw heb ddifrodi'r arwyneb
- P9 rhoi gwybod i berson perthnasol am unrhyw faw na allwch ei lanhau
- P10 gadael y ffenestri a'r gwydr yn sych a di-staen
- P11 gwneud yn siwr fod y fframiau a'r silffoedd ffenestri'n sych
- P12 rhoi popeth nôl fel ag yr oedd yn yr ardal waith

PPLHK2W

Glanhau ffenestri o'r tu mewn

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

- K1 safonau eich sefydliad ar gyfer ffenestri
- K2 pa mor aml y dylai ffenestri gael eu glanhau yn eich sefydliad
- K3 pam y dylech wisgo dillad amddiffynnol wrth lanhau
- K4 pam na ddylech gymysgu deunyddiau glanhau
- K5 pam y dylech ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr wrth ddefnyddio cyfarpar a deunyddiau glanhau
- K6 y mathau o broblemau y gallech ddod ar eu traws wrth lanhau ffenestri a sut i ddelio â'r rhain
- K7 beth i'w wneud os yw rhannau o'r ffenestri'n uwch na chyrhaeddiad eich llaw

Paratoi i lanhau ffenestri o'r tu mewn

Mae angen i chi wybod a deall:

- K8 pam y mae'n bwysig paratoi ffenestri ac o'u hamgylch ar gyfer eu glanhau
- K9 pam y dylech sylwi ar arwynebau sy'n rhydd neu wedi'u difrodi a rhoi gwybod amdanynt
- K10 y mathau o gyfarpar a deunyddiau y dylech eu defnyddio ar gyfer baw rhydd a baw sy'n anodd ei lanhau

Glanhau arwynebau mewnol ffenestri

Mae angen i chi wybod a deall:

- K11 pam y dylech roi gwybod am unrhyw faw na allwch ei lanhau
- K12 pam y dylech adael y fframiau a'r silffoedd ffenestri yn sych

PPLHK2W

Glanhau ffenestri o'r tu mewn

Gwybodaeth ychwanegol

Ystod

Paratoi i lanhau ffenestri o'r tu mewn

Beth sy'n rhaid ei gynnwys:

- 1 Paratoi'r ardal waith**
 - 1.1 gwisgo dillad amddiffynnol
 - 1.2 gosod arwyddion rhybudd o berygl
 - 1.3 diogelu'r ardal gyfagos

- 2 Arwynebau**
 - 2.1 ffenestri
 - 2.2 fframiau ffenestri

- 3 Cyfarpar a deunyddiau glanhau**
 - 3.1 cadachau
 - 3.2 cemegau glanhau
 - 3.3 gwesgiau

- 4 Baw**
 - 4.1 baw rhydd
 - 4.2 baw sy'n anodd ei lanhau

Glanhau arwynebau mewnol ffenestri

Beth sy'n rhaid ei gynnwys:

- 5 1 Arwynebau**
 - 5.1 ffenestri
 - 5.2 fframiau

- 6 Baw**
 - 6.1 baw rhydd
 - 6.2 baw sy'n anodd ei lanhau

PPLHK2W

Glanhau ffenestri o'r tu mewn

Datblygwyd gan People 1st

Fersiwn rhif 1

Dyddiad cymeradwyo Ebrill 2010

Dyddiad adolygu a awgrymir Ebrill 2012

Dilysrwydd Cyfredol

Statws Gwreiddiol

Sefydliad cychwynnol People 1st

RCU gwreiddiol 039N1HK2

Galwedigaethau perthnasol Croeso ac Arlwy, Galwedigaethau Cynnal a Chadw Tŷ

Cyfes/Set Croeso – Cynnal a Chadw Tŷ a Chroesawu Blaen y Tŷ

Geiriau Allweddol Glanhau ffenestri o'r tu mewn